# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-07-06 (p8)

### Dyddiad: 3 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Rheol Sefydlog 35 - Gweithdrefnau Hysbysu a Chyflwyno; a Rheol Sefydlog 36 - Gosod Dogfennau

#### 1. Cefndir

1.1 Mae Rheol Sefydlog 35 yn darparu ar gyfer gweithdrefnau hysbysu a chyflwyno'r Cynulliad.

1.2 Mae Rheol Sefydlog 36 yn darparu ar gyfer y broses angenrheidiol o osod dogfennau gerbron y Cynulliad. Mae'n rheol sefydlog gymharol newydd, a gyflwynwyd yn 2003 i esbonio'r trefniadau ar gyfer gosod dogfennau a dylid ei darllen ochr yn ochr â'r Canllawiau cysylltiedig ar Osod Dogfennau gerbron y Cynulliad.

#### 2. Rheol Sefydlog Newydd

2.1 Yn yr atodiadau, amlinellir y newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r Rheolau Sefydlog presennol i ateb gofynion y Mesur, a cheir cwestiynau lle y bo opsiynau ar gael.

2.2 Pan fydd y Pwyllgor wedi cytuno ar gynnwys y Rheolau Sefydlog newydd, bydd y Clercod yn paratoi drafftiau i'r Pwyllgor gytuno arnynt.

#### 3. Pwyllgor ar y Papur Gwyn - Trefn Lywodraethu Well i Gymru

3.1 Cafwyd y sylwadau canlynol ar sut y dylid gosod dogfennau gan y Pwyllgor ar y Papur Gwyn - Trefn Lywodraethu Well i Gymru: 42 Mae adran 45 yn nodi y dylai dogfennau priodol, a fyddai wedi cael eu rhoi gerbron y Senedd cyn 1999, gael eu rhoi gerbron y Cynulliad yn awr. Bydd angen i'r rhwymedigaeth hon barhau. Ond bydd angen hefyd i ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei gwneud yn y dyfodol, pa un ai yn y Senedd neu'r Cynulliad, ddarparu ar gyfer rhoi unrhyw fathau newydd o ddogfennau gerbron y Cynulliad. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen i unrhyw ofynion deddfwriaethol sy'n bodoli ar hyn o bryd i roi dogfennau gerbron y Cynulliad, fod yn ofynion i roi'r dogfennau gerbron y Ddeddfwrfa ar ôl 2007.

#### 4. Darpariaethau'r Mesur

4.1 Mae cymal 85 y Mesur yn darparu ar gyfer gosod dogfennau a datganiadau.

4.2 Mae Atodlen 10, paragraff 4 o'r Mesur yn diwygio Laying of Documents before Parliament (Interpretation) Act 1948 i gynnwys darpariaeth ar gyfer gosod dogfennau gerbron y Cynulliad. Bydd y weithdrefn ar gyfer 'gosod' dogfennau yn dibynnu ar reolau sefydlog y Cynulliad.

## 5. Pwyntiau i'w nodi

5.1 Mae Rheol Sefydlog 36 wedi gweithio'n dda yn ymarferol, ond efallai y bydd angen mân newidiadau technegol er mwyn eglurder, a nodir y rhain yn yr atodiad.

5.2 Efallai na fydd angen i Reol Sefydlog 35 sefyll ar ei phen ei hun a gellir ymgorffori ei darpariaethau mewn rheol sefydlog arall, e.e. SO36, neu SO6, fel y bo'n briodol. Bydd y Clercod yn ystyried hyn wrth ddrafftio.

## 6. Cam i'w gymryd

6.1 Cytuno ar yr egwyddorion a gaiff eu cynnwys yn y Rheolau Sefydlog hyn, fel yr amlinellir yn yr atodiadau amgaeedig.

Uned Weithdrefnau Mesur Llywodraeth Cymru

Mehefin 2006